# LC1308

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynllunio (Cyfarwyddiadau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006

Diben y rheoliadau hyn yw gwneud darpariaethau mewn perthynas â delio â materion yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref pan fo materion diogelwch gwladol yn gysylltiedig. Fe’u gwnaed gan ddefnyddio’r Weithdrefn Weithredol ar 23 Mai 2006 a daethant i rym ar 7 Mehefin 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7 –

Mae testun Cymraeg Rheoliad 1(2) yn dechrau gyda’r ymadrodd "Yn ddarostyngedig i reoliad 3" [*Subject to regulation 3*] Nid oes ymadrodd cyfatebol yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae Rheoliad 6(7) yn cynnwys croesgyfeiriad at baragraff (4)(a)(i). Nid oes is-baragraff (i) i baragraff (4)(a). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rheoliad 8(5) yn cynnwys croesgyfeiriad at Reoliad 11 yn y testun Saesneg, ond ceir croesgyfeiriad at Reoliad 14 yn y testun Cymraeg. Awgryma’r cyd-destun mai’r Saesneg sy’n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

## Sylwadau

Mae’r ddeddfwriaeth sylfaenol y mae’r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hi yn rhoi pwerau i Gwnsler Cyffredinol y Cynulliad. Ar hyn o bryd, nid oes Cwnsler Cyffredinol a all arfer y pwerau hynny er bod Mesur Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer swydd o’r fath.

Tynnwyd sylw’r cyfreithwyr drafftio at ddau wall teipograffyddol sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 27 Mehefin 2006